

DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL)
GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH)
1990
CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL
PLANNING COMMITTEE
INDEX TO REPORT**

Item No	Application No	Location and Proposal	Page No
1	31/2005/0194/PO	Land in Ffordd Richard Davies St. Asaph Business Park St. Asaph Development of 0.62 hectares of land for creche facility	1
2	31/2005/0391/PF	6 Mairwen Cefn St. Asaph Erection of extension to existing dwelling	5
3	42/2004/0102/PF	Plas Newydd Estate Land off Ffordd Pantycelyn Prestatyn Erection of 44 No. dwellings, construction of new vehicular access, car parking, open space area and landscaping	8
4	44/2005/0107/PF	Abbey House Rhyl Road Rhuddlan Rhyl Demolition of existing nursing home, erection of 24 self-contained apartments and associated works	18
5	45/2005/0317/PF	Millbank Inn Grange Road Rhyl Erection of extension and internal alterations	24
6	45/2005/0501/PO	Tower Garden Centre 81 Rhuddlan Road Rhyl Development of land for residential purposes (outline application)	27
7	45/2005/0506/AD	Land Opposite 81 Ffordd Derwen Rhyl Retention of non-illuminated developers signboard (retrospective application)	31
8	45/2005/0511/PF	Land adjacent to H Bridge between Kwik Save and railway Marsh Road Rhyl Change of use of land for siting of storage containers and construction of new vehicular access	33
9	46/2005/0271/PC	Land To Front Of 53 Ashly Court St. Asaph Change of use of land to create parking area (retrospective application)	37
10	47/2005/0454/PF	Tan Yr Onnen Waen St. Asaph Conversion and extension of existing outbuildings and existing dwelling to form holiday accommodation, erection of 2 log cabins for holiday accommodation and 1 log cabin as swimming pool building for guest use (amendments to previous permission for 3 log cabins granted on 26/01/2005)	41
11	01/2005/0156/PF	Plas Y Green Mold Road Denbigh Conversion of dwelling and coach-house to 5 No. dwellings, installation of new septic tank, alterations to existing vehicular access and change of use of land to form extension to residential curtilage	45
12	03/2004/0668/AD	Kwik Save Group Plc Regent Street Llangollen Display of replacement illuminated advertisement signs (retrospective)	49

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL
PLANNING COMMITTEE
INDEX TO REPORT**

Item No	Application No	Location and Proposal	Page No
13	03/2004/1286/PF	Bryn Melyn Motor Services Ltd Abbey Road Llangollen Demolition of petrol filling station and garage/bus depot, erection of 36 no. sheltered apartments for the elderly and 1 no. house manager's apartment and retention of existing chapel as shop	52
14	03/2004/1287/CA	Bryn Melyn Motor Services Ltd Abbey Road Llangollen Demolition of petrol filling station, garage/bus depot and demolition of side/rear chapel extensions (conservation area consent)	65
15	05/2004/1684/PF	Land Adjacent To Bryn Tawel Penybryn Corwen Erection of detached dwelling with integral garage and alterations to existing vehicular access	67
16	05/2005/0377/PF	Allt Y Celyn Barn Glyndyfrdwy Corwen Conversion of redundant barn to dwelling, temporary use of caravan on adjacent land during construction period and installation of new septic tank	71
17	06/2005/0207/PF	Land adjoining Gwylfa Gwyddelwern Corwen Erection of 2 no. dwellings and construction of new vehicular access	75
18	12/2005/0518/PC	22, 24 & 26 Trem Y Coed Clawddnewydd Ruthin Change of use of agricultural land to domestic use (retrospective application)	79
19	14/2005/0057/PF	Land adjoining Derfel Cyffylliog Ruthin Erection of new dwelling (revised scheme to Application Ref. No. 14/2004/0801/PF)	81
20	16/2005/0457/PR	Land Adjoining 41 (Plot 21a) Tan Y Bryn Llanbedr Dyffryn Clwyd Ruthin Details of proposed dwelling and construction of new vehicular access submitted in accordance with outline application code no. 16/2002/0775/PO	84
21	25/2005/0180/PF	Outbuilding at Hendre Farm Nantglyn Denbigh Conversion of existing outbuilding to dwelling and installation of new septic tank	88

ADRODDIAD GORFODI CYNLLUNIO

CYFEIRNOD: ENF/2004/00051

LLEOLIAD: 10 Marble Church Grove, Bodelwyddan, Rhyl.

TROSEDD: Newid Defnydd estyniad i Ddefnydd fel annedd sengl.

CYFYNGIADAU:

POLISIŌAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL SIR DDINBYCH
Polisi GEN6 – Gofynion Rheolaeth ar Ddatblygu
Polisi HSG12 – Estyniadau i Anheddau

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL
Nodyn 1 – Estyniadau i Anheddau

CANLLAWIAU LLYWODRAETHOL
Polisi Cynllunio Cymru – Mawrth 2002
Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 9 – Gorfodi Rheolaeth Gynllunio

YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL

Ystyrir darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 wrth benderfynu gweithredu yn erbyn achosion o dorri rheolau cynllunio a materion cysylltiol eraill. Yn yr achos hwn, mae'r materion dan sylw yn ymwneud â hawliau unigolyn i greu annedd ar wahân. Rhoddwyd caniatâd iddynt godi estyniad i'w ddefnyddio fel rhandy nain, ar yr amod nad oedd bwriad i greu annedd ar wahân. Caiff yr hawliau hyn eu gorbwyso gan ystyriaethau polisi sy'n ceisio sicrhau bod unrhyw anheddau newydd yn darparu lefel priodol o fwynderau i'r deiliaid presennol ac i unrhyw ddeiliaid yn y dyfodol.

1. GWYBODAETH GEFNDIR

- 1.1 Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio yn Nhachwedd 2003 (40/2003/1203/PF) i godi estyniad un llawr gyda tho fflat, i'w ddefnyddio fel rhandy nain, ar ochr yr annedd sy'n cael ei adnabod fel 10 Marble Church Grove, Bodelwyddan.
- 1.2 Nododd Amod 3 ar y caniatâd, "dylid defnyddio'r estyniad y rhoddir caniatâd iddo er dibenion ategol i'r annedd sydd yno eisoes, 10 Marble Church Grove, ac nid fel tŷ annedd ar wahân."

- 1.3 Yn Awst 2004, derbyniodd yr adran gynllunio wybodaeth a oedd yn honni bod perchnogion 10 Marble Church Grove wedi torri Amod 3 o'u caniatâd drwy rentu'r estyniad allan yn llawn amser i rywun nad oedd yn aelod o'r teulu; gan greu, felly, uned breswyl ar wahân.
- 1.4 Bu Swyddogion yn gwneud ymholiadau ynglŷn â'r honiad, gan ddod i'r casgliad bod Amod 3 o'r caniatâd wedi'i dorri. Yn Hydref 2004, awgrymwyd pedwar dewis i'r perchnogion a rhoddwyd 6 mis iddynt ystyried y dewisiadau hyn:
- (i) Gwneud dim; canlyniad hynny, yn ôl pob tebyg, fyddai'r Cyngor yn gweithredu'n ffurfiol drwy gyflwyno Hysbysiad Gorfodi.
 - (ii) Cyflwyno cais i ddileu'r amod (er hynny, dywedwyd y byddai'n annhebygol iawn y byddai cais o'r fath yn llwyddiannus)
 - (iii) Cydymffurfio gydag Amod 3 drwy ofyn i'r tenant adael a sicrhau bod yr estyniad yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas y nodwyd yn wreiddiol yn unig h.y. gan deulu a chyfeillion yn ymweld.
 - (iv) Cynnal newidiadau strwythurol i agor yr estyniad er mwyn ei gysylltu'n fewnol gyda'r prif annedd, fel ei fod yn rhan annatod o'r annedd sydd yno eisoes. Ni fyddai wedyn yn hunangynhaliol nag yn cael ei ddefnyddio fel annedd sengl. Nodwyd y byddai angen cymeradwyo rheoliadau adeiladu os yr ydym yn dilyn y dewis hwn.
- 1.5 Yn yr un mis, hysbysodd y perchnogion y byddent yn ystyried Dewis (iv).
- 1.6 Yn Ebrill 2005, cysylltwyd â'r perchnogion i ofyn am gadarnhad o'r dewis yr oeddynt wedi penderfynu arno. Cafwyd ymateb ganddynt yn hysbysu bod gan yr estyniad fynediad uniongyrchol i'r prif annedd yn 10 Marble Church Grove.
- 1.7 Ym Mai 2005, ymwelodd Swyddog â'r eiddo gan weld nad dyna'r sefyllfa mewn gwirionedd. Roedd patio allanol agored wedi'i greu rhwng y mynediad ôl i'r prif dy a'r mynediad ôl i'r estyniad (gweler ffotograff rhif 1), ond nid oedd unrhyw waith wedi'i wneud i gysylltu'r ddwy uned yn fewnol. Yn ogystal â'r ddau fynediad ôl ar wahân, nodwyd bod dau fynediad blaen ar wahân hefyd gyda'r ddwy uned (gweler ffotograffau 2 a 3).
- 1.8 Yn dilyn ymweliad Mai 2005, ystyriwyd bod yr estyniad yn parhau i gael ei ddefnyddio fel tŷ annedd sengl, er gwaetha'r mân newidiadau a wnaed gan y perchnogion, a chafwyd cyngor cyfreithiol i gadarnhau hyn. Rhoddodd Adran Gyfreithiol y Cyngor gadarnhad bod hyn yn parhau i dorri rheolau cynllunio wrth i'r estyniad gael ei ddefnyddio fel annedd ar wahân. Mae'r adeilad ar wahân i'r tŷ annedd gwreiddiol o ran adeilad ac o ran y defnydd a wneir ohono. Mae'n eiddo sengl, hunangynhaliol sy'n uned breswyl, yn cynnwys yr holl gyfleusterau arferol ar gyfer coginio, bwyta a chysgu. Mae person nad yw'n aelod o'r teulu yn byw yno, yn talu rhent ac yn ei ddefnyddio fel tŷ annedd

sengl heb gysylltiad gyda'r annedd gwreiddiol; dyma sefyllfa sy'n amlwg yn torri'r rheolau cynllunio a hefyd Amod 3 o'r caniatâd gwreiddiol.

2. RHESYMAU DROS WEITHRED GORFODI

- 2.1 Dechreuodd y defnydd o'r adeilad fel annedd sengl o fewn y 4 blynedd diwethaf.
- 2.2 O ystyried maint, safle a'i agosrwydd at y prif annedd yn 10 Marble Church Grove, ni fyddai'r defnydd o'r estyniad fel annedd sengl yn darparu safon dderbyniol o lety i'r sawl fyddai'n byw yno, nag i'r sawl fyddai'n byw yn y prif annedd. Fe fyddai defnyddio'r estyniad fel annedd sengl yn anghyson â'r adeiladau preswyl eraill yn yr ardal o ran maint, dyluniad, safle a golwg, a gallai greu cynsail ar gyfer argymhellion eraill tebyg ger anheddau eraill. Felly, ystyrir bod defnyddio'r estyniad fel annedd sengl yn mynd yn groes i Bolisi GEN 6 (i), (v) o Gynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a'r canllawiau perthnasol ym Mholisi Cynllunio Cymru – Mawrth 2002.
- 2.3 Ni fyddai gosod amodau cynllunio pellach yn dileu'r achos dros wrthwynebu ar sail polisi i'r weithred o dorri rheolau cynllunio.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Awdurdodi'r gweithredoedd canlynol:
 - (i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i sicrhau bod defnydd o'r estyniad fel annedd sengl yn dod i ben.
 - (ii) Dwyn achos cyfreithiol, neu unrhyw weithred arall briodol dan y Ddeddf Gynllunio, yn erbyn unrhyw berson, neu bersonau sy'n derbyn unrhyw Hysbysiad Gorfodi, neu unrhyw Hysbysiad arall, neu dwyn achos cyfreithiol pe byddent yn methu â chydymffurfio gyda gofynion yr Hysbysiad Gorfodi.

ACHOSION A AWDURDODWYD GAN Y PWYLLGOR GORFODI
ADRODDIAD ADOLYGU ACHOSION
Mehefin 2005

Mae'r achosion hyn wedi'u cyflwyno gerbron y Pwyllgor o'r blaen, ond nid ydynt wedi'u datrys. Pwrpas yr Adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn gryno i Aelodau yn chwarterol. Fe fyddai'n well codi unrhyw faterion manwl gyda Swyddogion cyn neu ar ôl y Pwyllgor.

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
ENF/292/97/S P7/521	Voel Las, Eryrys	26/11/97	Newidiadau diawdurdod i lefelau tir a gwaith diawdurdod arall.	Hysbysiad wedi'i gyflwyno, dim cais am apêl. Dyddiad cydymffurfio: 09/04/99. Cydymffurfiwyd â'r hysbysiad. Gwaith tirunio caled a meddal ar droed mewn cysylltiad â chais cyf: 15/76/99PF. Caniatâd cynllunio ôl-weithredol 15/2004/345/PF wedi'i roi.	Monitro'r cydymffurfio gyda'r amodau tirlunio sy'n weddill; mae manylion yr amodau hynny yn cael eu rhoi ar waith.
ENF/037/95/N P13/11	Rhydorddwy Goch, Ffordd Dyserth, Rhyl	28/10/98 24/03/04	31 o ffenestri diawdurdod mewn adeilad rhestredig .	Hysbysiad wedi'i gyflwyno, apêl wedi'i gwrthod. Dyddiad cydymffurfio: 19/10/00, felly wedi torri'r rheol erbyn hyn. 4 ffenestr wedi'u hail-osod ac yn dderbyniol. 27 ffenestr yn dal i fodoli ond wedi'u peintio'n wyn. Dal i fod yn torri'r hysbysiad. Cyflwynwyd cais i gadw'r ffenestri sydd wedi'u peintio (44/2003/1101/LB) ond gwrthodwyd yn dilyn argymhelliad. Cytunwyd ar Gynllun Gwaith i gydymffurfio â'r Hysbysiad.	PPPS i fonitro'r cydymffurfio gyda'r cynllun gwaith ac i gadw mewn cysylltiad â'r perchennog.

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
ENF/006/97/S P13/8	Lleweni Coach House & Stables, Parc Lleweni, Dinbych	27/10/99	Esgeuluso adeilad rhestredig	Dim datblygiad diawdurdod, ond achos o esgeuluso'r adeilad rhestredig Gradd II* hwn. Perchennog wedi marw. Safle yn cael ei werthu. Caniatâd cynllunio gan ddarpar ddatblygwr am amrywio'r amodau yn ymwneud â mynediad cerbydau wedi'i roi ym mhwyllgor cynllunio 25 Mai 2005.	PPPS i fonitro'r sefyllfa ac i gadw mewn cysylltiad â'r datblygwr.
ENF/001/99/N P13/5	Elwy Bank, Stryd Fawr, Llanelwy	09/05/00	Esgeuluso adeilad rhestredig	Dim datblygiad diawdurdod, ond achos o esgeuluso adeilad rhestredig. Y perchennog wedi gwneud gwaith interim i wella sefydlogrwydd yr adeilad yn unol â Rheoliadau Adeiladu. Sgaffaldau wedi'u tynnu. Y perchennog am gadw'r murluniau. Holl agoriadau wedi'u cau drosodd ac wedi'u peintio'n ddu. Cais cynllunio a chais am ganiatâd adeilad rhestredig wedi'u cyflwyno yn Ebrill 2005, a'r ddau yn annilys oherwydd diffyg manylion priodol.	PPPS yn aros am y manylion angenrheidiol i ddilysu a phrosesu'r cais, yn dilyn cyfarfod â'r perchennog i roi cyngor.
ENF/434/99/N LB1 – P7/552 LB2 – P7/553 LB3 – P7/555 LB4 – P7/554	4 cilfach barcio ar yr A55 ger Rhualt	28/03/01	Gosod a masnachu ar unedau arlwyo symudol ar Dir y Goron.	4 Hysbysiad wedi'u cyflwyno, apeliadau wedi'u gwrthod. Dyddiad cydymffurfio: 02/05/03 LCC wedi codi arwyddion ymhob un o'r 4 cilfach yn nodi "dim	Wedi'i adrodd gerbron Aelodau yn y Pwyllgor Cynllunio yn Rhagfyr 2003 fel achos NFA. PPPS yn parhau i fonitro.

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
				<p>masnachu", ffensys wedi'u codi mewn 2 cilfach hefyd. Holl unedau parhaol wedi'u symud erbyn hyn. 1 cilfach yn dal i gael ei defnyddio'n rheolaidd gan uned symudol a byrddau a chadeiriau yn cael eu gosod ar ddarn o laswellt gerllaw gan yr un person. Ffensio heb gael ei roi'n sownd gan Priffyrdd i rwystro defnyddio darn o laswellt. Portaloo wedi'i symud ar 11 Gorffennaf 2004.</p>	
ENF/133/00/S P7/560	Llyn Cyfynwy, Fferm Lake Hill, Llandegla	25/07/01	Carafán breswyl uned dwbl	<p>Hysbysiad wedi'i gyflwyno, dim cais am apêl. Dyddiad cydymffurfio: 31/10/02. Carafán heb ei symud fel y nodwyd gan yr hysbysiad Gorfodi ac mae honiadau fod y perchennog wedi dychwelyd i fyw yn y garafán.</p> <p>Felly wedi torri'r Hysbysiad. Caniatâd cynllunio wedi'i roi i gadw'r garafán ar gyfer defnydd swyddfa am gyfnod o 18 mis. Caniatâd cynllunio wedi'i roi hefyd i godi adeilad swyddfa parhaol.</p>	PPPS i fonitro'r safle.
ENF/2003/0016 P7/601	208 Stryd Fawr, Prestatyn	23/04/03	Codwr stondin diawdurdod ar flaen siop mewn Ardal Gadwraeth	<p>Hysbysiad Gorfodi wedi'i ail-gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2004.</p> <p>Perchennog eisoes wedi cydymffurfio â thor-rheol arall yn yr eiddo hwn wrth dynnu arwyddion a chaeadau rholio</p>	Cyfarfod gyda'r perchennog i'w drefnu er mwyn gwirio cydymffurfio a rhoi cyngor ar bethau gwahanol

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
				<p>diawdurdod.</p> <p>Perchennog wedi torri'r Hysbysiad yn ymwneud â'r codwr stondin diawdurdod.</p>	
ENF/2001/005 P7/565	'Patina', 204 Stryd Fawr, Prestatyn	25/07/01	Gosod caead rholio mewn Ardal Gadwraeth	<p>Cynhaliwyd achos ar 13/02/04 a'r diffynnydd yn ei gael yn ddiuog ar sail pwynt technegol yn ymwneud â chyflwyno'r hysbysiad.</p> <p>Ail-gyflwyno'r Hysbysiad ar 16 Rhagfyr 2004. Apêl wedi'i chyflwyno – sylwadau ysgrifenedig.</p> <p>Gwrthodwyd yr Apêl Ebrill 2005. Wedi cytuno gyda pherchennog y busnesi ymestyn yr amser ar gyfer cydymffurfio hyd ddiwedd Medi 2005 (dros y cyfnod brig), ac wedyn bydd yn tynnu'r caeadau rholio.</p>	PPSPS i fonitro cydymffurfio.
ENF/2002/007 P7/568	Tŷ Isoe, Maes Maelor, Llandegla	30/01/02 25/05/05	Storio cerbydau a defnydd preswyl	<p>Hysbysiad wedi'i gyflwyno, apêl wedi'i gwrthod..</p> <p>Dyddiad cydymffurfio: 01/04/04 a'r Perchennog wedi torri'r Hysbysiad.</p> <p>PPPS a LS wedi cael sawl cyfarfod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a chytunwyd ar weithredu ar y cyd mewn egwyddor.</p> <p>12 Hydref 2004, cynhaliwyd ymweliad safle gan swyddogion PPPS ac Asiantaeth yr</p>	PPPS i adrodd nôl i'r pwyllgor cynllunio ar y mater yng Ngorffennaf 2005 yn dilyn cyfarfod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i drafod materion ymhellach.

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
				<p>Amgylchedd. Tor-rheol yr un fath ac o fewn amodau'r Hysbysiad.</p> <p>Adroddiad wedi'i ddiweddarau i'r pwyllgor cynllunio ar 25 Mai 2005.</p> <p>EA wedi erlyn y perchennog yn llwyddiannus yn Llys y Goron Mai 2005. Perchennog wedi cael dirwy o £2000 a gorchymyn i dalu costau o £7500. Mae ganddo 6 mis i dalu neu wynebu 45 diwrnod o garchar.</p>	
ENF/2002/005 P7/573	Bryn Eglur, Llanrhaeadr	27/02/02	Estyniad i anedd	<p>Hysbysiad wedi'i gyflwyno, apêl wedi'i thynnu'n ôl. Dyddiad cydymffurfio: 02/12/03 Caniatad cynllunio yn dilyn hynny wedi'i roi ar sail cyfaddawd.</p> <p>Manylion wedi'u cyflwyno a'u derbyn o safbwynt amodau yn ymwneud â gorffen y tu allan. Holl faterion wedi'u cwblhau ac yn dderbyniol i'r PPPS.</p>	NFA
ENF/2002/025 P7/580	115 Ffordd yr Arfordir, Rhyl	26/06/02	Defnydd cymysg, preswyllo a gwerthu ceir	<p>Cais ôl-weithredol wedi'i wrthod a hysbysiad wedi'i gyflwyno. Apêl wedyn wedi'i gwrthod. Dyddiad cydymffurfio wedi'i ymestyn hyd 29/12/03.</p> <p>Ystyriwyd fod y perchennog wedi torri'r Hysbysiad..</p> <p>2 ymddangosiad Llys wedi'u gohirio a'r achos wedi'i gynnal o'r diwedd ar 22 Chwefror 2005.</p>	PPPS i fonitro.

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
				Diffynnydd wedi pledio'n ddieuog. Er gwaethaf tystiolaeth yn dangos 20 o wahanol gerbydau wedi'u storio/arddangos ar y blaen dros gyfnod o 9 mis, cafodd y Llys y diffynnydd yn ddieuog ar sail "tystiolaeth annigonol i brofi bod gwerthu ceir yn digwydd".	
ENF/2002/021 P7/351	Cornel Bach, Ffordd Dinbych Isaf, Llanelwy	04/09/02	Gosod cartref symudol a chreu cwrtilau	Caniatad ôl gweithredol wedi'i wrthod a hysbysiad wedi'i gyflwyno. Apêl yn dilyn hynny yn caniatáu cyfnod dros dro tra bod rhieni sâl yn preswyllo yn y cartref symudol. Amod yn nodi bod yn rhaid gosod planhigion i helpu cuddio'r garafán. Cynllun plannu nawr ar droed.	PPPS i fonitro a sicrhau bod y garafán yn symud unwaith y bydd y rhieni sâl yn gadael.
ENF/2002/033 P7/588	Tŷ Caer, 32 Stryd Sussex, Rhyl (Chaplins)	04/09/02	Gosod arwydd ffascia mewn Ardal Gadwraeth	Arddangos arwydd mewn Ardal Gadwraeth gan gredu ei fod yn iawn, ond fe'i ystyrir yn annerbyniol yn bennaf oherwydd ei fod yn agos at briffordd. Swyddog Prosiect THI a Swyddogion Cynllunio mewn trafodaeth gyda'r perchnogion i annog gwelliannau i'r arwydd a'r eiddo.	Trafodaethau yn parhau a Swyddog Cydymffurfio (THI – Rhyl) yn ei swydd i fonitro unrhyw weithred. Mater heb ei benderfynu eto.
ENF/2002/017 P24/194	153 Stryd Fawr, Prestatyn	04/09/02	Blaen siop uPVC mewn Ardal Gadwraeth	Hysbysiad wedi'i gyflwyno. Dyddiad cydymffurfio: 21/01/04. Perchennog wedi torri'r Hysbysiad. Cais cynllunio (43/2004/972/PF wedi'i gyflwyno ar gyfer blaen siop gwahanol. Manylion dechreuol o'r blaen siop gwahanol yn annigonol.	Aros am benderfyniad i'r cais cynllunio ac yna sicrhau gweithredu yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd.

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
				Perchennog nawr wedi apwyntio asiant a chynlluniau diwygiedig wedi'u cyflwyno.	
15/877/98/MA P47/3	Chwarel Maes y Droell, Graianrhyd	30/10/02	Cais ROMP heb ei benderfynu – cloddio yn parhau	PS wedi ysgrifennu at gynrychiolydd cyfreithiol perchennog y chwarel ar sail cyngor a dderbyniwyd gan Gwnsler a phenderfyniad Pwyllgor.	Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ysgrifennu at holl weithredwyr chwareli sydd â cheisiadau adolygu heb eu penderfynu wrth aros am fanylion asesiad yr effaith amgylcheddol. Aros am wybodaeth bellach o Lywodraeth Cynulliad Cymru.
ENF/2002/043 P7/592	Cyn-dir Rheilffordd, Tŷ Draw, Bodfari	18/12/02	Storio cerbydau trên ac eitemau cysylltiedig	Hysbysiad wedi'i gyflwyno ac apêl fel Ymchwiliad Cyhoeddus. Apêl wedi'i gwrthod. Defnydd o storio i ddod i ben a holl eitemau i'w symud erbyn y dyddiad cydymffurfio: 03/04/04.	PPPS yn monitro'r sefyllfa. Erlyniad heb ei benderfynu eto gan fod y perchennog yn mynd ymlaen gyda'r gwaith o glirio'r safle ac yn dangos ei fwriad i gydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad.
ENF/2003/031 P7/592		23/07/03	Ffens derfyn a gathiau dros 2m o uchder	Hysbysiad wedi'i gyflwyno yn gorfodi tynnu'r ffens o fewn 3 mis. Dyddiad cydymffurfio: 26/03/04. Perchennog wedi torri'r ddau Hysbysiad ac wedi'i hysbysu o'r posibilid o erlyniad. Mae'r safle'n cael ei chlirio ar hyn o bryd ac mae'r perchennog yn hysbysu'r cyngor yn rheolaidd o'i gynnydd.	Erlyniad heb ei benderfynu eto (gweler uchod).
ENF/2003/009	Casgan Fishery, Llandegla	23/07/03	Defnydd preswyl o garafán a gosod cerbydau	Gweithredu Gorfodol wedi'i awdurdodi i sicrhau bod defnydd preswyl yn dod i ben a bod cerbydau yn cael eu symud. Hysbysiad wedi'i gyflwyno 30 Mehefin 2004 ac wedi'i	PPPS i gyd-gysylltu gyda LS i ystyried gweithredu pellach priodol.

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
				<p>weithredu. Dim cais am apêl. Dyddiad cydymffurfio: 19/02/05.</p> <p>Defnydd preswyl o'r garafán wedi dod i ben ond cerbydau yn dal i fod ar y safle, felly mae'r Hysbysiad wedi'i dorri.</p>	
ENF/2003/028	Tir wrth ymyl Uned 10, Parc Busnes HTM, Ffordd Abergele, Rhuddlan	03/09/03	Gosod Carafán Statig ar gyfer Dibenion Preswyl	<p>Gweithredu Gorfodol wedi'i awdurdodi i sicrhau bod defnydd preswyl o'r garafán yn dod i ben a'i bod yn cael ei symud. Hysbysiad wedi'i gyflwyno, rhoddwyd 18 mis i gydymffurfio. Cyflwynwyd apêl ar ffurf sylwadau ysgrifenedig. Apêl wedi'i gwrthod Mehefin 2004 a'r Hysbysiad yn dal i fod mewn grym. Dyddiad cydymffurfio: 3 Rhagfyr 2005.</p>	PPPS i fonitro dyddiad cydymffurfio.
ENF/2003/038	60 Ffordd Gronant, Prestatyn	01/10/03	Datblygiad ddim yn unol â'r hyn y rhoddwyd caniatâd iddo dan CC Rhif Cod 43/2001/1194/PF	<p>Gweithredu Gorfodol wedi'i awdurdodi i sicrhau fod y <i>dormer</i> yn cyd-fynd â'r cynlluniau gwreiddiol. Hysbysiad wedi'i gyflwyno a 6 mis hyd y dyddiad cydymffurfio: 22/06/04. Perchennog wedi torri'r Hysbysiad. Cais cynllunio wedi'i gyflwyno Mehefin 2004 am gynllun arall yn dilyn trafodaeth cyn-gais gyda Swyddogion, ac mae'r Cynllun diwygiedig nawr ar droed.</p>	<p>PPPS i fonitro gweithrediad y cynllun diwygiedig.</p> <p>Erlyniad heb ei benderfynu eto.</p>
ENF/2003/039	Tan y Graig, Nantglyn	26/11/03	Storio ceir	Gweithredu Gorfodol wedi'i awdurdodi i gael gwared â'r cerbydau.	NFA

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
				Mae'r sefyllfa wedi gwella wrth gael gwared â'r cerbydau a theimlir nad doeth fyddai cymryd unrhyw gamau pellach.	
ENF/2003/040	Penrhydgoch, Nantglyn	26/11/03	Storio ceir	Gweithredu Gorfodol wedi'i awdurdodi i gael gwared â'r cerbydau. Hysbysiad i'w ddrafftio. Ymweliadau safle diweddar yn dangos fod y tor-rheol yn derbyn sylw.	PPPS i fonitro ac i ystyried yr angen i gyflwyno Hysbysiad Gorfodol.
ENF/2003/041	Coral Spring, Ffordd Rhuthun, Llandegla	26/11/03	Defnyddio tir i osod carafán a storio ceir	Gweithredu Gorfodol wedi'i awdurdodi i symud cerbydau ac eitemau cysylltiol. Hysbysiad wedi'i gyflwyno ar 8 Chwefror 2005 ac yn weithredol o 17 Mawrth 2005. 6 mis ar gyfer cydymffurfio.	PPPS i fonitro dyddiad cydymffurfio.
ENF/2003/0002	Gwasg Gee, 12 -18 Stryd y Capel, Dinbych	24/03/04	Esgeuluso adeilad rhestredig	Gweithredu Gorfodol wedi'i awdurdodi i gyflwyno Hysbysiad Atgyweirio. Hysbysiad Atgyweirio wedi'i gyflwyno i'r perchennog 30 Mehefin 2004. Dim ymateb na gweithred benodol gan y perchennog i ymdrin â gofynion yr Hysbysiad. Gweithred Gorchymyn Pryniant Gorfodol wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet.	PPPS i barhau i gydgyssylltu â'r perchennog, LS a Rheolwr Prosiect (THI).
ENF/2003/00042	Parc Bach Derwen,	24/03/04	Addasu adeiladau amaethyddol ar	Gweithred Gorfodol wedi'i awdurdodi i ddod â defnydd	PPPS i fonitro'r safle.

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
	Corwen		gyfer defnydd preswyl.	<p>preswyl i ben ac ar gyfer gwaith dymchwel.</p> <p>Hysbysiad wedi'i gyflwyno ar 6 Awst 2004. Apêl wedi'i chyflwyno ac wedi llwyddo ar sail tystiolaeth annigonol o ddefnydd preswyl. Digwyddodd hyn er gwaethaf gwaith i wneud yr adeilad yn addas i fyw ynddo, gan gynnwys corn simnai newydd yn ogystal â ffotograffau yn dangos aerial teledu ar yr adeilad a nwyddau gwyn amrywiol. Fodd bynnag, mae'r weithred wedi llwyddo i sicrhau rheolaeth dros y defnydd a fydd yn rhwystro unrhyw gais am ddefnyddio'n gyfreithlon yn y dyfodol.</p>	
ENF/2004/00033	5 Ochr y Foel, Eryrys	21/04/04	Adeiladu ffens	<p>Cais ôl-weithredol 15/2004/166/PF wedi'i wrthod a gweithredu gorfodol wedi'i awdurdodi i dynnu'r ffens/gostwng y ffens i 1 metr.</p> <p>Cais ôl-weithredol 15/2004/1167/PF wedi'i wrthod. Hysbysiad gorfodol wedi'i gyflwyno 16 Tachwedd 2004. Apêl wedi'i chyflwyno (sylwadau ysgrifenedig) ond heb ei phenderfynu yn dilyn cyflwyno cais ôl-weithredol arall 15/2005/0116/PC a wrthodwyd hefyd. Mae'r apêl yn parhau, ac mae datganiadau wedi'u cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio.</p>	PPPS i aros am benderfyniad yr apêl

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
ENF/2004/00035	Clinig Well Street, Ruthin	21/04/04	Arddangos arwydd hysbysebu sy'n cael ei oleuo yn allanol	Cais ôl-weithredol 02/2004/0086/AD wedi'i wrthod ac erlyniad wedi'i awdurdodi ar gyfer cael gwared â'r dull goleuo (2 lamp). Mae un lamp wedi'i thynnu a'r llall i'w thynnu ar ôl i'r perchennog wella yn dilyn salwch yn ddiweddar.	Erlyniad heb ei benderfynu gan fod bwriad i gydymffurfio.
ENF/2004/00058	4 Aspen Walk, Rhyl	21/04/04	Gosod 2 ddysgl lloeren, gydag un ohonynt 1m i ddiamedr, ar flaen annedd	Gweithredu gorfodol wedi'i awdurdodi i dynnu'r ddysgl fwyaf. Hysbysiad wedi'i gyflwyno 8 Chwefror 2005 gyda 3 mis i gydymffurfio. Hysbysiad yn weithredol o 17 Mawrth 2005.	PPPS i fonitro dyddiad cydymffurfio.
ENF/302/00/N	37 – 39 Ffordd Pendyffryn, Rhyl	21/04/04	Esgeuluso adeilad rhestredig	Caniatad wedi'i awdurdodi i Gyflwyno Hysbysiad Atgyweirio. Yr eiddo wedi'i roi ar y farchnad ac wedi'i werthu yng Ngorffennaf 2004 i ddatblygwr eiddo. Aros iddo gyflwyno cais cynllunio a chais am ganiatâd adeilad rhestredig.	PPPS i fonitro'r sefyllfa. Aros am gyflwyniad cais cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig. Heb benderfynu ar unrhyw weithred.
ENF/2004/00039	Pen Y Mynydd Bach, Rhualt	19/05/04	Adeiladu seilo grawn.	Cais cynllunio ôl-weithredol wedi'i wrthod a chaniatâd wedi'i awdurdodi i weithredu gorfodol i gael gwared â'r seilo grawn. Dim apêl wedi'i chyflwyno yn erbyn gwrthod y cais. Gweithredu Gorfodol wedi'i hysbysu 16 Rhagfyr 2004. Dyddiad cydymffurfio: 24 Gorffennaf 2005.	PPPS i fonitro dyddiad cydymffurfio.
ENF/2004/00048	Gweithdy wrth	01/09/04	Newid defnydd o	Caniatad wedi'i awdurdodi i	PPPS i fonitro.

RHIF. CYF.	CYFEIRIAD	PWYLLGOR	TOR-RHEOL	NODIADAU	GWEITHRED
	gefn 3 Stryd Gamlin, Rhyl.		weithdy i annedd sengl a gwaith cysylltiol.	gyflwyno Hysbysiad Gorfodol i waith ddod i ben, i ddefnydd preswyl ddod i ben ac i gynnal unrhyw waith angenrheidiol i ddod â'r defnydd i ben. Arolwg mewnol wedi'i gynnal. Newidiadau mewnol i ddarparu lle i fyw wedi digwydd ond defnydd preswyl heb ddechrau. Mae'r eiddo yn cael ei farchnata fel swyddfa gyda Gwerthwyr Tai.	
ENF/2004/00052	The Best, 16 Stryd Fawr, Prestatyn	27/10/04	Arwydd sy'n cael ei oleuo'n fewnol.	Caniatad wedi'i awdurdodi i erlyn, ond yr achos heb ei benderfynu eto er mwyn cael cyfle i drafod gyda'r ymgeisydd.	PPPS i gyfarfod gyda'r ymgeisydd. Erlyniad heb ei benderfynu eto.
